

CYFLEOEDD GWYRDD

Cefnogi Adferiad Gwyrdd yng Nghymru yn dilyn COVID-19 drwy nodi'r cyfleoedd i gefnogi iechyd y boblogaeth drwy ddulliau cynaliadwy

GWANWYN 2021

RHAGAIR YR AWDUR GWADD


Mae pandemig y coronafeirws wedi creu argyfwng byd-eang sydd wedi profi cryfderau systemau gofal iechyd y byd, gan arwain at ganlyniadau trychinebus yn fynd-eang. Mae'n rhybudd llym y gall systemau gofal iechyd fod yn fregus – mae'r pwysau hwn ar ofal iechyd mewn perygl o gynyddu fwyfwy oherwydd argyfwng byd-eang arall – newid yn yr hinsawdd.

Er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig wedi ymrwmo i dargedau allyriadau 'sero-net' erbyn 2050. Mae hyn wedi'i gadarnhau ymhellach gan ddatganiadau gan lywodraethau ledled y DU ein bod yn wynebu Argyfwng Hinsawdd.

Os yw'r pandemig coronafeirws wedi dysgu unrhyw beth i ni, mae wedi ein dysgu y gallwn wneud newidiadau sylfaenol, mawr o ran sut yr ydym yn byw ein bywydau yn wyneb bygythiad enfawr. Rydym oll wedi cymryd cyfrifoldeb – llywodraethau, busnesau a'r cyhoedd – i wneud newidiadau i ddiogelu ein hunain yn y tymor byr; mae bellach yn bryd sianelu'r cyfrifoldeb hwnnw gyda'r brys mwyaf er mwyn diogelu cenedlaethau'r dyfodol rhag argyfwng hinsawdd arfaethedig.

David Powlesland, Uwch Reolwr, Dinasoedd a Rhanbarthau'r Ymddiriedolaeth Garbon

Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn bartner annibynnol, arbenigol i sefydliadau arweiniol ledled y byd sy'n ceisio creu economïau cynaliadwy, carbon isel. I ddysgu mwy am ei gwaith yn y sector cyhoeddus, cliciwch [yma](#).



ADFERIAD GWYRDD

Mae adroddiad gan y grŵp gorchwyl a gorffen adferiad gwyrdd, o dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, yn nodi amrywiaeth o gamau gweithredu â blaenoriaeth i gefnogi adferiad gwyrdd yng Nghymru, gan gynnwys atebion ar sail natur a throsglwyddo i economi gylchol sero net, sy'n cefnogi natur ac yn creu cyfleoedd sylweddol ar gyfer swyddi a datblygu sgiliau. Mae ail adroddiad yn sail i drafodaeth ehangach ynghylch pa ffordd yw'r un orau o gefnogi'r trydydd sector amgylcheddol, sydd wedi'i daro'n galed gan y pandemig ac sy'n nodi cyfleoedd i gefnogi'r sector i ddod yn fwy gwydn ac effeithiol. Mae Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn darparu cymorth i gynorthwyo sefydliadau drwy'r pandemig.

DATGARBONEIDDIO

Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn deillio o amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys cyfran uchel o ddiwydiannau a gweithgynhyrchu. Gall sefydliadau'r sector cyhoeddus ddylanwadu ar amrywiaeth eang o allyriadau, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, gyda'r gyfran fwyaf o allyriadau o ganlyniad i allyriadau anuniongyrchol gan gynnwys yn sgil prynu nwyddau a gwasanaethau, staff yn teithio i'r gwaith a theithio ar gyfer busnes.

Y GIG yw un o sefydliadau mwyaf y byd, ac mae'n cynrychioli rhan sylweddol o economi a gweithlu'r DU. Y GIG hefyd yw'r sefydliad sector cyhoeddus sydd â'r allyriadau carbon uchaf yn y DU. Mae gan y GIG rôl arweinyddiaeth arwyddocaol i'w chwarae o ran cyfrannu at ddatgARBONEIDDIO – o ran ei allyriadau ei hun, ei gadwyn gyflenwi, a'r gymdeithas ehangach. Mae allyriadau o fewn GIG Cymru wedi'u rhannu'n dri categori, sef y defnydd o adeiladau, trafniadaeth a chaffael, gyda chaffael yn cyfrif am 62% o'r allyriadau yn 2018/19.

Mae Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru wedi datblygu 'Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2020-2030' mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Garbon, i'w gyhoeddi yng Ngwanwyn 2021, er mwyn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru o gael sector cyhoeddus niwtral o ran carbon erbyn 2030.

Dros y ffin yn Lloegr, mae'r tîm Greener NHS yn adeiladu ar waith gwreiddiol yr Uned Datblygu Cynaliadwy flaenorol, wrth ehangu i gyflawni cylch gwaith sy'n edrych fwy tuag allan gyda chapasiti gwell i ganolbwyntio ar ofal iechyd sero net ac agenda gyngaliadwyedd ehangach.

Gall datgarboneiddio a chreu economi fwy cynaliadwy gyfrannu at amrywiaeth eang o fuddiannau iechyd i'r boblogaeth yn y tymor byr a'r hirdymor. Canfu astudiaeth yn y BMJ, a archwiliodd effeithiau gwahanol bolisiau datgarboneiddio, fod camau i leihau allyriadau carbon yn aml yn arwain at fanteision net i iechyd y boblogaeth. Mae amrywiaeth o fanteision iechyd i'r polisiau sy'n targedu'r sectorau sy'n cynhyrchu allyriadau carbon gan gynnwys creu ynni, tai, tir, trafniadaeth a'r diwydiant bwyd yn sgil lleihau llygredd amgylcheddol, mwy o weithgaredd corfforol, a deiet gwell.

Mae gan bolisiau datgarboneiddio'r potensial i wella iechyd y boblogaeth, ond hefyd i arbed biliynau o bunnoedd yn y DU, drwy arbedion i'r GIG a gofal cymdeithasol. Gellir gweld y cyfuddiannau iechyd ac economaidd hyn yn sgil datgarboneiddio yn y tymor byr, gan leihau effeithiau iechyd tymor hwy y newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd.

AER GLÂN

Mae COVID-19 wedi arwain at ohirio nifer o weithgareddau bob dydd pobl, a arweiniodd i ddechrau at ostyngiad sylweddol mewn allyriadau carbon. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r allyriadau wedi lleihau bron ddim. Mae cannoedd o weithwyr proffesiynol iechyd yng Nghymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi 'adferiad iach' i'r pandemig, gan alw ar flaenoriaethu materion amgylcheddol gan gynnwys aer glân, ynni glân ac amgylchedd glanach, sy'n dangos bod gweithwyr gofal iechyd yn cefnogi'r agenda hinsawdd ac yn cydnabod y manteision iechyd posibl a ddaw yn sgil adferiad gwyrdd.



Ansawdd aer gwael yw'r risg amgylcheddol fwyaf i iechyd y cyhoedd yn y DU ar hyn o bryd. Mae dod i gysylltiad â llygredd aer am gyfnod hir yn achosi cyflyrau cronig fel clefydau cardiofasgwlaidd ac anadlol, ac mae'n arwain at ddisgwyliad oes byrrach. Ym mis Rhagfyr, yn y dyfarniad cyntaf o'i fath yn y byd, cadarnhaodd crwner fod llygredd aer gormodol wedi cyfrannu'n sylweddol at farwolaeth plentyn 9 oed. Mae llygredd aer wedi'i gysylltu hefyd â chanlyniadau gwaeth yn sgil COVID-19. Dangosodd astudiaeth a gynhaliwyd ym Milan y berthynas rhwng lefelau llygredd aer a marwolaeth yn sgil COVID-19. Canfu fod pob uned o gynnydd yn y crynhoad o ronynnau aer mân (PM2.5) yn gysylltiedig â chynnydd o 9% mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19.


Mae ystadegau'r Llywodraeth yn amcangyfrif bod llygredd aer yn y DU ar gyfartaledd yn cwtdogi 7 i 8 mis oddi ar ddisgwyliad oes pob unigolyn. Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru yn amlygu sut y bydd yn lleihau allyriadau ar y cyd ac yn cyflawni gwelliannau hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant, natur, yr amgylchedd, ecosystemau a bioamrywiaeth.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod llygredd aer ledled y byd yn peri tua 3 miliwn o farwolaethau cyn pryd bob blwyddyn, gan ei wneud yn risg amgylcheddol sylweddol. Gall mesurau effeithiolrwydd ynni sy'n targedu ansawdd aer dan do ac yn yr awyr agored gael effeithiau cadarnhaol iawn o ran iechyd byd-eang.

CEFNOGI BIOAMRYWIAETH

Er bod ynni adnewyddadwy yn hanfodol i gefnogi adferiad gwyrdd, mae astudiaeth ddiweddar yn datgelu sut y gall ein galw am ynni arwain at golledion o ran bioamrywiaeth ac ecosystemau dros y môr. Ar hyn o bryd, mae tua 17% o'r ynni a ddefnyddir ledled y byd yn dod o ynni adnewyddadwy, ffigur y mae angen ei gynyddu'n gyflym er mwyn cadw cynhesu byd-eang islaw 2 radd Celsius yn ystod y ganrif hon.



Fodd bynnag, gall cloddio am y mwynau a'r metelau sydd eu hangen ar gyfer seilwaith technoleg adnewyddadwy gael effaith negyddol ar foamrywiaeth, drwy ddirystrio cynefinoedd a'u hamgylcheddau. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r lithiwm, sy'n elfen allweddol o fatris ion lithiwm a ddefnyddir mewn cerbydau trydan, i'w gael yn y rhannau hynny o'r byd sy'n gyfoethog o ran bioamrywiaeth gan gynnwys y gwlypdiroedd sydd wedi'u rhestru gan Ramsar, sy'n safleoedd hollbwysig i fflamingos nythu a magu ynddynt.

Canfu adroddiad diweddar y gallai'r gwaith o gynhyrchu mwynau, fel lithiwm, gynyddu bron i 500% erbyn 2050 i fodloni'r galw cynyddol am dechnolegau ynni glân. Gan fod ynni adnewyddadwy yn hanfodol ar gyfer gwrthsefyll newid

yn yr hinsawdd, mae angen cynllunio strategol ac asesiadau effeithiol o'r effaith ar yr amgylchedd i sicrhau nad yw'r bygythiadau mwyngloddio i foamrywiaeth a achosir drwy greu ynni adnewyddadwy yn fwy na'r bygythiadau sy'n cael eu hosgoi drwy liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Bydd canfod deunyddiau drwy gynlluniau mwyngloddio cynaliadwy, fel y Fenter Sicrwydd Mwyngloddio Cyfrifol, ac ailgylchu i leihau'r galw sylfaenol am ddeunyddiau yn helpu i ddiogelu bioamrywiaeth a lleihau'r bygythiadau i ecosystemau yn sgil technoleg adnewyddadwy.



FFYRDD NEWYDD O WEITHIO A THEITHIO

Mae canfyddiadau Cynulliad Hinsawdd y DU yn dangos y byddai pobl yn barod i barhau gyda'r newidiadau mewn ffordd o fyw a orfodwyd yn sgil y pandemig er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gan gynnwys ymwreiddio ffyrdd newydd o weithio, creu swyddi gwyrdd a chefnogi dyfodol carbon isel. Ar lefel genedlaethol, mae ymgyrch Sut Wyt Ti? lechyd Cyhoeddus Cymru yn amlygu'r ffaith bod 37 y cant o bobl yn byw bywydau mwy cyfeillgar i'r amgylchedd ers dechrau'r pandemig, a bod 21 y cant o bobl wedi dod yn fwy pryderus ynghylch y newid yn yr hinsawdd.

Gallai cynllun adfer gwyrdd arwain at ostyngiad o 7% mewn allyriadau carbon deuocsid ledled y byd erbyn 2030, ac mae canfyddiadau adolygiad Greenpeace yn awgrymu y byddai cyfanswm o £100 biliwn i ysgogi'r adferiad gwyrdd dros gyfnod o bedair blynedd yn creu tua 1.8 miliwn o swyddi. Mae TUC Cymru yn amcangyfrif y gellid creu bron i 60,000 o swyddi yng Nghymru gyda buddsoddiadau'r llywodraeth mewn prosiectau allweddol, gan gynnwys datgarboneiddio, trafndiaeth gyhoeddus a thai cymdeithasol.

Mae trafnidiaeth gyhoeddus mewn nifer o fannau gwledig yng Nghymru yn "anfynych, yn annigonol ac yn ddrutach nag mewn mannau eraill"; canlyniadau hyn yw bod nifer o bobl yn cael eu hallgáu o'r gwasanaethau ac o gyfleoedd cyflogaeth os nad oes ganddynt drafndiaeth breifat. Byddai buddsoddi mewn cynyddu'r mynediad at dechnolegau newydd a/neu wella trafndiaeth gyhoeddus werdd yn sicrhau enillion o ran lleihau allyriadau carbon, lleihau llygredd aer a mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol.

Mae'r angen i deithio ar gyfer cyflogaeth yn lleihau gan fod nifer o sefydliadau wedi cefnogi arferion gweithio ar-lein yn ystod y pandemig COVID-19, a byddant yn parhau i wneud hynny; byddai buddsoddi yn y seilwaith digidol sydd ei angen i gefnogi'r patrymau gwaith hyn hefyd yn cyflwyno cyfleoedd cyflogaeth i ddinasyddion mewn ardaloedd gwledig, gan wella cynhyrchiant a chynhwysiant cymdeithasol. Ar y cyd â chanolbwyntio ar leihau'r cadwyni cyflenwi, yn enwedig yn y diwydiant bwyd, mae potensial y gallai canfod ffynonellau bwyd mwy lleol a masnachu yn fwy lleol ysgogi economïau lleol, gan fynd i'r afael ymhellach â thlodi ar un llaw, a'r newid yn yr hinsawdd ar y llaw arall.





GRWPIAU SY'N AGORED I NIWED, TLODI TANWYDD, A LLESIANT MEDDYLIOL

Mae'r grwpiau yn ein cymdeithas yr ystyrir eu bod yn fwyaf agored i niwed yn cynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau, pobl sy'n byw mewn tloidi a dinasyddion gyda salwch corfforol a meddyliol hirdymor (gan gynnwys rhai sydd mewn dau neu fwy o'r categorïau hyn). Y grwpiau hyn sydd wedi wynebu'r risg fwyaf ac sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan y pandemig COVID-19, o ran dal y feirws a mynd yn sâl neu farw oherwydd y clefyd, ac o bosibl yn sgil y canlyniadau economaidd a chymdeithasol dilynol.

Mae oddeutu 150,000 o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tloidi tanwydd (lle mae'r defnydd o ynni ar gyfer rhedeg a chynnal eu cartrefi yn cynrychioli swm anghymesur o fawr o'u gwariant), ac mae'r grwpiau hyn mewn mwy o berygl. Er enghraifft, mae gan bobl sydd ag anableddau anghenion ynni domestig uwch yn aml oherwydd eu bod yn cael traferth cadw'n gynnes (y rhai sydd wedi'u cyfyngu o ran symudedd) a bod angen ynni ychwanegol ar gyfer technoleg gynorthwyol.



Gall fod yn anodd i bobl sy'n agored i niwed fanteisio ar gymorth ar gyfer tloidi ynni (oherwydd rhwystrau fel allgáu digidol a diffyg darpariaeth allgymorth gan wasanaethau), ac mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth hon yn byw mewn cartrefi sy'n anodd iawn eu gwella o ran effeithiolrwydd ynni. Gallai'r cynnydd yn niferoedd y bobl sy'n aros gartref oherwydd y pandemig olygu cynnydd o £195 y flwyddyn ym miliau ynni aelwyd arferol a bydd y costau'n debygol o fod yn uwch ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tai nad ydynt yn effeithlon o ran ynni.

Gallai ffocws polisi ar y grŵp hwn arwain at fanteision cynaliadwyedd sylweddol, fel yr awgrymir gan National Energy Action*: "Gan mai cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd yw'r rhai drutaf i'w rhedeg a'r rhai sy'n llygru fwyaf, bydd yr effaith uniongyrchol o'u huwchraddio yn dod â buddiannau amgylcheddol sylweddol." Gallai buddsoddi mewn dull amgen o gynhyrchu ynni yng Nghymru hefyd fod yn rhan o ysgogydd economaidd sy'n cyfrannu at drechu tloidi.

Mae adroddiad diweddar gan yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol yn nodi sut y mae mesurau effeithiolrwydd ynni yn effeithio ar lesiant corfforol a meddyliol. Mae tystiolaeth ddiweddar yn nodi y gall tymheredd oer a phoeth iawn o dan do a thloidi tanwydd gael effaith negyddol ar iechyd meddwl (gorbryder, straen ac iselder). Mae gwelliannau mewn effeithiolrwydd ynni yn aml yn cael eu cysylltu â gwelliannau mewn llesiant meddyliol. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £20 miliwn i'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i uwchraddio o leiaf 1,000 o gartrefi drwy gymysgedd o ddeunyddiau a thechnolegau newydd sy'n effeithlon o ran ynni.

* cyfieithiad o gyhoeddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig

DATBLYGIADAU GAN GOMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU

Fe wnaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol draddodi araith 'TED' yn ddiweddar am 'adael y byd mewn cyflwr gwell nag y cawsom hyd iddo' i gefnogi adferiad gwyrdd yn dilyn y pandemig, gan ganolbwyntio ar leihau allyriadau carbon, gwella cynaliadwyedd, creu swyddi gwyrdd a hyrwyddo llesiant fel amcan cenedlaethol.

BETH Y GALLWN NI EI WNEUD?

Mae'r pandemig wedi datgelu sefyllfa ddifrifol sy'n amlygu'r heriau anodd o'n blaenau i leihau ein heffaith ar y newid yn yr hinsawdd. Er bod allyriadau carbon wedi gostwng yn sylweddol ar ddechrau'r cyfnod clo economaidd byd-eang, yn gyffredinol, nid ydynt wedi gostwng bron ddim ac ni fydd yn cael effaith fesuradwy ar grynhoed carbon y byd.

Arweiniodd ein trosglwyddiad cyflym i ffordd o fyw sy'n defnyddio llai o garbon ar ddechrau'r pandemig at aer glanach a chynnydd mewn bywyd gwyllt trefol, a ddatgelodd yr hyn y gellir ei gyflawni gan roi ysbrydoliaeth ar gyfer newidiadau yn y dyfodol er mwyn lleihau'r allyriadau i sero net, drwy drawsnewid ein systemau diwydiannol, ynni a thrafnidiaeth yn llwyr. A allwn ni gynnal y newidiadau cadarnhaol hyn mewn ymddygiad ochr yn ochr â'r broses o lacio cyfyngiadau COVID-19 yn y dyfodol?

Rydym oll yn gyfrifol am yr ynni a ddefnyddiwn yn ein cartrefi. Mae treulio llai o amser yn y gawod ac atal drafftiau drwy ffenestri a drysau yn awgrymiadau syml ar gyfer arbed dŵr ac ynni, a lleihau ein biliau a'n hól-troed carbon, yn enwedig wrth i nifer ohonom barhau i weithio gartref. Mae cymorth ar gael hefyd i sefydliadau'r sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol leihau allyriadau carbon a sicrhau manteision lleol.

COFIWCH...

Mae nifer ohonom yn sylweddoli y bydd pob rhan o fywyd yn wahanol iawn ar ôl y pandemig hwn ac mae ymateb ar y cyd i ailgodi'n gryfach ac yn decach yn cynrychioli un cyfle mewn cenedlaeth i adfer yn sgil COVID-19 a mynd i'r afael â natur sylfaenol argyfyngau hinsawdd ar yr un pryd.

AMCANION LLESIANT 'NI YW'R NEWID' I GYMRU

Mae'r ymgyrch 'Ni yw'r Newid' yn annog a chefnogi staff i gymryd camau cynaliadwy yn y gweithle, yn unigol ac o fewn timau, i gyfrannu at saith amcan llesiant Cymru (yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Dyluniwyd y Pecyn Cymorth Ni yw'r Newid i helpu sefydliadau i fabwysiadu 'Ni yw'r Newid' yn eu gweithleoedd, gan ddarparu gwybodaeth i gefnogi newidiadau bach cynaliadwy ar draws amrywiaeth o bynciau.

